# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 18 Ionawr 2024 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd David Roberts
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Lowri Jones

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mair O Pierce. Dymunwyd blwyddyn newydd dda i'r holl aelodau.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Beca Roberts.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2023.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Llwybr Rhif 3** – Adroddwyd fod y Clerc a Cyng. Dafydd Roberts wedi cyfarfod gyda'r swyddogion llwybrau ac cytunwyd y bydd Cyngor Gwynedd i edrych i fewn i'r mater. Cadarnhawayd nid oes angen newid categori'r llwybrau er mwyn rhoid arwyddion ayyb ar y llwybr. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

3.2 **Drychau traffig, Lon y Grug/Llwybr Main –** Nodwyd fod y Clerc wedi gael trafodaeth dros ffôn hefo Ian Morgan, Cyngor Gwynedd – Adroddwyd fod y mater bellach yn nwylo Andrew Gregson, adran Trafnidiaeth – y Clerc i holi am ddiweddariad.

3.3 **Seddi Gwag –** Y Clerc i hysbysebu'r seddi gwag cyn gynted a phosib.

3.4 **Biniau Baw Ci** – Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts yn gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug – ar y gweill.

3.5 **Arhosfan Bws/'Pull-in Bay' Llys y Gwynt –** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael arhosfan/pull-in bay ger Llys y Gwynt – dim ymateb hyd yn hyn. Adroddwyd y Cyng. Dafydd Owen fod merch ifanc wedi gael ei gollwng yn arhosfan 1 milltir i ffwrdd ym Mhryn, oherwydd nad oedd y bws yn mynd i Lys y Gwynt. Nodwyd fod gan y Cyngor Cymuned nifer o bryderon am y ffaith fod dim gwasanaeth trafnidiaeth cyhoeddus yn Lys y Gwynt, y Clerc i lunio llythyr cryf a'i danfon at pennaeth yr adran amgylchedd, Mr Dafydd Wyn Williams, gan danfon copi at yr aelodau seneddol lleol.

**3.6 Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – estynu'r linell wen a gosod 'road studs coch (Ian Morgan). Nodwyd fod y contractwyr methu cwblhau'r gwaith mewn tywydd gwlyb – ar y gweill.

**3.7 Bont ar y ffordd B4409 ger Moelyci –** angen arwyddion blaenoriaeth un-ffordd ymlaen (Ian Morgan) – Nodwyd fod y mater hwn wedi gael ei drosglwyddo i Andrew Gregson yn yr adran trafnidiaeth – y Clerc i holi am ddiweddariad.

**3.8 Cynllun Gwaharddau Parcio Arfaethedig – Pant yr Ardd, Tregarth –** Adroddwyd fod y Cyng. Beca Roberts a'r Clerc wedi ymweld â preswylwyr lleol i weld beth yw barn nhw am y cynllun. Nodwyd fod y sefyllfa wedi gwella – y Cyngor i gadw llygaid ar y sefyllfa yn y dyfodol.

**3.9 Datblygiad Cae'r Gors -** Y Clerc wedi danfon llythyr cryf yn erfyn ar Adra i gael Polisi Gosod Lleol ar gyfer dyraniad cychwynnol. Adroddwyd fod y Clerc wedi gael ymateb bositif gan Adra yn datgan y byddent yn barod i gydweithio gyda Cyngor Gwynedd i ddatblygu polisi Gosod Lleol ar gyfer datblygiad Cae'r Gors yn ddarostyngedig i ganfod yr angen a'r cyfiawnhad dros wneud hynny. Disgwylir i'r unedau fod yn barod oddeutu Haf 2024, ac o ganlyniad, os oes bwriad i symud ymlaen a Polisi Gosod Lleol yna bydd y polisi yn debygol o fod wedi'i lunio erbyn Mawrth 2024. Cadarnhawyd y byddent yn rhoi gwybod i'r Cyngor o unrhyw ddatblygiad o safbwynt y polisi wrth symud ymlaen.

**3.10 Llecyn Tir Bont Twr** - Cadarnhawyd fod y Clerc wedi cyfarfod gyda Matt Brown, Cwmni Savills ar y 26ain o Hydref. Adroddwyd fod Cwmni Breedon ddim mewn sefyllfa i drosglwyddo'r tir yn ôl i berchnogaeth y Cyngor Cymuned ar hyn o bryd, a sonwyd am y posibilrwydd o les tymor byr. Nodwyd siom y Cyngor Cymuned gyda'r ymateb hwn, y Clerc i edrych ar yr hen ddogfennau eto ac i ymateb i Matt fod y tir mewn sylw i fod o dan perchnogaeth y Cyngor Cymuned, ac nid Breedon – ar y gweill.

## 4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2024'

**Cyflwynwyd:** Cysgodfan Bws ar y bont ger y Ganolfan – Adroddwyd fod y Clerc wedi derbyn neges gan Sharon Williams i holi am y posibilrwydd o gael cysgodfan bws ar y bont ger y Ganolfan – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am hyn. Adroddwyd hefyd fod angen bin yma oherwydd mae pobl yn taflud ysbwriel dros ochr y bont. Mae Mrs Williams hefyd yn pryderu am y coed mawr o amgylch yn Ganolfan, yn enwedig mewn gwyntoedd cryf. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am yr materion uchod.

## 5. Archeb 2024-25

Yn dilyn archwilio'r gyllideb a'r gwariant yn y flwyddyn bresennol, penderfynwyd ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £38,400.

## 6. Tendr Llwybrau Cyhoeddus

Adroddwyd fod dau gais wedi ei gyflwyno i'r Cyngor, a cafwyd trafodaeth am y cynnwys. Y Clerc i cysylltu a'r contractwr llwyddiannus ac i ddiolch i'r contractwr arall am ei cais.

## 7. Rhoddion

Penderfynwyd ail gyflwyno'r eitem hwn yn cyfarfod mis Chwefror.

## 8. Gwaith y mis

Dim.

**9. Adroddiad Cynrychiolwyr**
**Canolfan Tregarth –** Cafwyd diweddariad ar datblygiadau a materion yn y Ganolfan.

**10. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
10.1 Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**11. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Archwilio Cymru | Ffioedd Archwilio 2020/21 Audit Fees | £300.00 |
| Cyfieithu Cymunedol | Cyfieithu Dogfen Tendr Llwybrau | £241.99 |
| Llais Ogwan | Hysbyseb rhoddion | £27.00 |
| G Williams | Ail toriad llwybrau | £3,300.00 |

**12. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dwr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd a gwelliannau i'r goedlan presennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda pwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0614/16/LL** | Penrala, Tregarth<br>Cais llawn i godi 7 tŷ ynghyd â gwaith cysylltiedig i gynnwys gwelliant i'r fynedfa bresennol<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C23/0810/16/DT** | 4 Ffrwd Galed, Tregarth<br>Estyniad un llawr yng nghefn yr annedd<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C23/0777/16/DT** | 14 Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>estyniad llawr cyntaf newydd yn y cefn ynghyd ag ardal to fflat newydd gydag atriwm<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C23/0728/16/LL** | Cae Clyd Dob, Tregarth<br>Codi annedd teuluol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C23/0896/16/DT** | 47 Ffordd Tanrhiw, Tregarth<br>Estyniad un llawr yng nghefn yr anedd<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C23/0818/16/LL** | Carreg Hafan, Tregarth<br>Cais cynllunio llawn ar gyfer isrannu ac ymestyn eiddo presennol er mwyn darparu 3 fflat byw â chymorth hunangynhwysol gydag ardaloedd cymunedol ar gyfer staff a thenantiaid<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0849/16/LL** | Parth 7 Parc Bryn Cegin, Llandygai,<br>Codi unedau diwydiannol newydd<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0844/16/AM** | Parth 7 Parc Bryn Cegin, Llandygai<br>Datblygu 4 uned fasnachol (amrywiol o ran maint) yn cynnwys mynediad newydd i gerbydau a cherddwyr gyda maes parcio.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0769/16/DT** | Penlan Mill Cottage, Llandygai<br>Codi modurdy ac estyniad cefn i'r tŷ presennol<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |

**12. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C23/0901/16/CT** | 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai<br>Gwaith i goed mewn ardal gadwraeth yng ngardd cefn 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai.<br>**Penderfyniad:** Cefnogi |
| **C23/0918/16/LL** | Fferm Tan y Foel, Rallt, Pentir<br>Codi annedd gweithiwr amaethyddol a thanc septig cysylltiedig ynghyd a gwaith tirlunio<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad ond yn gofyn am sicrwydd fod yr amodau deiliadaeth yn cael ei gorfodi yn yr achos yma, a bod y safle ddim yn troi'n 'Airbnb' ayyb mewn amser, a modd gosod amodau cadarn am werthu'r tŷ ymlaen, peidio newid yn dŷ gwyliau ayyb. |
| **C23/0892/16/CT** | Gwalia, 1 Bryn Eglwys, St Anns, Mynydd Llandygai |

| | |
|---|---|
| | Gais i dorri 6 coeden o fewn ardal cadwraeth<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |
| **C24/0004/16/LL** | Land at Maes Talog, Tregarth<br>Codi annedd marchnad agored sengl deulawr a garej ddwbl ar wahân.<br>**Penderfyniad:** Dim sylwadau. |
| **C23/1019/16/YA** | Rhes Amana, Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>Adeilad amaethyddol at bwrpas cadw offer a storio peiriannau a phorthiant anifeiliaid. Maint arwynebedd llawr 12m x 8m.<br>**Penderfyniad:** Cefnogi. |

**13. Unrhyw fater brys arall**
Dim.